

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Rhagfyr 1af, 2016 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); Dafydd Williams; Trefor W Jones; Ifor Wyn Davies; Alwen Evans; Anwen Jones; Tegid Jones; Thomas Prys Jones; Elis Gwyn Jones; Aled Lloyd Evans; Margaret Griffith; Sian Angharad Parry a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd); Naomi Jones a William Ifor Hughes;

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Dachwedd 3ydd, 2016.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Y Cyngorwyr Trefor W Jones a Margaret Griffith yn datgan buddiant personol yn rhif 6.1 ar y rhaglen waith sef cais cynllunio Fron Deg Chwilog, y Cyngorydd Trefor Jones yn ddiagon yng Nghapel Siloh, drws nesaf i Fron Deg a'r Cyngorydd Griffith yn aelod yng Nghapel Siloh; y Cyngorydd Elis Gwyn Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 5.8 ar y rhaglen waith sef gohebiaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd ynghylch cais cynllunio Hen Gapel Moriah, Llanystumdwy, mae'n berthynas i'r sawl sy'n gwneud sylw ar y cais cynllunio.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Tachwedd 2016. Penderfynwyd derbyn.

2. Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro); Newid yn nhrefniant ad daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus. Penderfynwyd derbyn y bydd toriad pellach yn yr ad-daliad a wneir i'r cynghorau cymuned o Ebrill 2017 ymlaen. Penderfynwyd ymhellach barhau gyda'r trefniant ad-dalu gan Gyngor Gwynedd.

3. Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro); Gwasanaeth Trafnidiaeth. Derbyniwyd yr ateb nad yw'r coed ger y bont yn Llanystumdwy yn beryglus ac nad ydynt yn bargodi'r briffordd fel eu bod yn achosi niwsans neu rwystr ac oherwydd darganfyddiad y Swyddog byddai'n anodd cyfiawnhau cymryd unrhyw gamau gorfodi. Maent o'r farn bod y coed yn ffurfio rhan o o dirwedd naturiol ac i ryw raddau gellid dweud eu bod yn cynorthwyo i leihau'r cyflymder a chynnig mesur arafu traffig naturiol.

4. Swyddog Canlyniadau; Etholiadau Cyngor Cymuned 2017. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd angen clustnodi cyllid i dalu cost lawn yr etholiadau boed cystadleuaeth neu beidio. Byddai cost amcannol y Cyngor yma gyda hyd at 2,000 o etholwyr yn £1,750- (gall fod yn uwch neu'n is). Os bydd yr etholiad yn y gymuned yn ddi-wrthwynebiad codir tâl o £100- fesul ward etholiadol sef £400-.

5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Biniau Halen. Mae'r biniau yn llawn eleni a chost llenwi pob bin yn y gymuned cyn y gaeaf fydd £40- y bin (i gychwyn haf 2017) ac ail-lenwi bin ar gais y gymuned yn ystod y gaeaf yn £60- y bin (1 Hydref – 30 Ebrill). Rhaid i unrhyw gais am lenwi bin/iau halen yn ystod y gaeaf dderbyn sylw a chymeradwyaeth y Clerc. Penderfynwyd derbyn.

6. Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro); Traffferthion Traffig, y ffordd sy'n arwain i Dyddyn Du, Tyddyn Gwyn a Ffatri. Derbyniwyd ateb y Cyngor Sir y bydd swyddog o'r Uned Traffig yn ymweld â'r safle i weld os oes modd gwella'r arwyddion presennol.

7. Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro); Cais am lwybrau troed, Chwilog i Afonwen a Llanarmon i Lôn Goed. Does gan y Cyngor Sir mo'r arian i gyflawni prosiectau o'r fath ond bod y cais yn cael ei ychwanegu at restr o gynlluniau. Mae Cyngor Gwynedd yn dewis tri cais i'w rhoi ymlaen am arian grant gan Lywodraeth Cymru. Penderfynwyd i'r Clerc a'r Cynghorydd Sirol gydweithio ar lythyr yn gofyn beth yw'r meini prawf i wneud cais am yr arian grant.

8. Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro); Cais Cynllunio C16/1240/41/LL – Safle Hen Gapel Moriah, Llanystumdwy. Derbyniwyd er gwybodaeth gopi o lythyr anfonwyd gan Gyngor Gwynedd at drethdalwr sy'n byw yn agos at y safle yn nodi'n union y daflen amser ar gyfer y cais yma. Roedd trethdalwr arall o'r pentref wedi mynegi pryder y byddai'r datblygiad arfaethedig yn amharu ar olygfa draddodiadol y pentref. Ymneilltuodd y Cynghorydd Elis Gwyn Jones yn ystod y drafodaeth.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif C16/1364/41/LL – Cais i godi estyniad llawr cyntaf uwchben estyniad to fflat presennol ar gefn yr eiddo; Fron Deg, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi. Ymneilltuodd y Cynghorwyr Margaret Griffith a Trefor W Jones yn ystod y drafodaeth.

2. Cais Rhif C16/1431/41/TC – Tystrysgrif cyfreithloni datblygiad arfaethedig ar gyfer codi estyniad sy'n gyfystyr a datblygiad a ganiateir; Glandwr, Gorsaf Llangybi. Dim gwrthwynebiad.

3. Cais Rhif C16/1239/41/LL – Diwygiad i gais a wrthodwyd o dan C16/0407/41/LL ar gyfer creu safle carafanau teithiol newydd 17uned, ail leoli 2 uned statig bresennol, codi block toiledau a gosod tanc septic a darparu llecynnau pasio; Swn y Don, Afonwen, Chwilog. Rydych wedi trafod hwn yn barod ond mae cynlluniau diwygiedig wedi dod i law. Penderfynwyd gwrthwynebu oherwydd rhagwelir problemau gyda'r mynediad i'r safle.

4. Cais Rhif C16/1452/41/LL – Codi sied amaethyddol; Brychyni, Llangybi. Cefnogwyd.

5. Cais Rhif C16/1269/41/LL – Cais i estynnu adeilad presennol er mwyn darparu lle storio; Uned 1-2, Parc Amaeth Llanystumdwy. Penderfynwyd cefnogi

7. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Rhoslan

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Materion gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones :

- a. Drwm cebl BTers misoedd lawer ym môn clawdd ger Gwernallt, Llangybi. Deallir bod rhai eraill yma ac acw yn y gymuned. Penderfynwyd cysylltu gyda Open Reach ar ôl cael mwy o wybodaeth gan y Cynghorydd Jones.

Cyngor Gwynedd hefyd yn dueddol o anghofio am arwyddion rhybuddio mewn cloddiau. Unwaith eto penderfynwyd cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ar ôl cael rhestr o union leoliadau gan y Cynghorydd Jones.

- b. BT/Open Reach – amhosib mynd trwodd i wahanol adrannau er dal ymlaen am hydoedd os llwyddir i gysylltu o gwbl i ddechrau. Penderfynwyd cysylltu gyda Phennaeth Cymru BT i dynnu sylw at y broblem ac anfon copi at Ofcom.
- c. Mewnfydwyr yn newid enwau cynhenid ar eu heiddo i rai Saesneg. Penderfynwyd cysylltu gyda Phwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd a gofyn oes modd iddynt ddylanwadu i gael rheolaeth ar enwau Cymraeg cynhenid ar ôl i'r Cynghorydd Sir ganfod mwy am y Pwyllgor yma a danfon y wybodaeth ymlaen at y Clerc.

Llanystumdwy

Materion gan y Cynghorydd Marian Evans :

- a. Pryder gan rai o drigolion y pentref am gyflwr hen gytiau newid y clwb peldroed ger cae chwarae Llanystumdwy; ffenestri wedi malu, maent yn llawn llanast ac mae canastr gas mawr tu allan. Nid yn unig yn flêr i'r llygad ond yn beryglus i'r cyhoedd. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Clwb Peldroed ac os na fydd ymateb gydag adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd.
- b. Eto pryder gan rai o drigolion y pentref am geir Sŵn yr Afon yn parcio ar y palmant ac felly cerddwyr yn gorfod camu i'r ffordd ar y tro mewn man peryglus. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Heddlu.
- c. Bysiau sy'n teithio o Gricieth am Bwllheli yn gorfod gwyro i'r ochr anghywir o'r ffordd i fynd dros y bont, yn mynd yn rhy gyflym. Gellir cael gwrthdrawiad gyda cheir sy'n dod i lawr o Maenywern. Penderfynwyd cysylltu gydag Adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd a gofyn am gyfarfod ar y safle.

8. Gwasanaeth Iechyd tu allan i oriau. Penderfynwyd derbyn yr ymateb, mae copi ohono wedi cael ei anfon ymlaen i'r sawl wnaeth y gwyn.

9. Gwasanaeth Cymraeg Scottish Power a gohebiaeth oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'n ymddangos mai ychydig sydd yn gweithio yn y ganolfan gwasanaeth Cymraeg yn Wrecsam ac os ydynt yn brysur mae'r alwad yn cael ei hateb ran amlaf yn Warrington neu Runcorn neu os ydynt yn brysur iawn rywle arall. Daeth yn amlwg hefyd bod un neu ddau o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn Warrington a Runcorn. Mae'n amlwg hefyd ei bod yn eitha anodd cael siarad gyda rhywun yn Gymraeg. Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi gofyn am gopi o unrhyw ohebiaeth oddi wrth Scottish Power. Penderfynwyd derbyn adroddiad y Clerc.

10. Arolwg o gyflwr meinciau'r Cyngor; mae dwy ar y llwybr ger y briffordd o Lanystumdwy am Gricieth, un ger mynedfa Stâd Cae Capel yn Chwilog, un yn y Cae Chwarae yn Llanybi. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Elis Gwyn Jones a gofynnwyd iddo roi pris am wneud y gwaith erbyn cyfarfod mis Ionawr.

11. Hysbysfwrdd Llanybi. Adroddiad gan y Cynghorydd Elis Gwyn Jones. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd cael hysbysfwrdd tebyg i'r hwn sydd o flaen Capel Pencaenewydd gyda lle i 6 papur A4 arno; Y Cynghorydd Elis Gwyn Jones a'r Clerc i ymgynghori a'r Clerc i gael gair gyda Phennaeth Ysgol Llanybi.

12. Lloches bws Maes Myrddin, Chwilog. Adroddwyd bod difrod unwaith eto i'r lloches bws yma; mae'r panel yn gyfa ond yr hyn sydd yn ei ddal wedi'i falu. Roedd y Clerc

wedi cysylltu gyda'r ymgwymerwr i ofyn iddo symud y panel oddi yno a sicrhau bod y safle yn ddiogel. Penderfynwyd gofyn i'r ymgwymerwr, Mr D E Williams, Llithfaen drwsio'r difrod. Adroddwyd am y difrod wrth yr Heddlu.

13. Trafod prisiau am farbio a chlirio ar dir y Cyngor gyferbyn â rhes tai Maenywern yn Llanystumdwy (3). Ar ôl trafodaeth penderfynwyd gosod y gwaith i Atkin Groundworks Ltd., Llanarmon am bris o £697- + TAW.

Materion Ariannol.

14. Adroddiad ariannol ar lafar. Rhoddodd y Clerc adroddiad fanwl o'r union sefyllfa ariannol, bod y gwariant yn unol â'r gyllideb bennwyd ac nad oes peryg o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled. Bydd angen talu i Mr DE Williams, Llithfaen am ei waith yn trwsio'r llochesi bws yn Lodge Trallwyn a Maes Myrddin, Chwilog. Heb gael anfoneb gan Mr Clifford Hughes am ei waith yng Nghae Chwarae Llanybi. Mae taliad yn ddyledus, pan ddaw anfoneb, i Criccieth Cleaning Ltd. am lanhau'r llochesi bws yn chwarterol. Dal i ddisgwyl anfoneb oddi wrth BDO am yr archwiliad allanol. Bydd angen gwneud cais am ad-daliad arian llwybrau gan Gyngor Gwynedd.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd

15. Cyngor Gwynedd; Cefnogaeth Gorfforaethol – cynllun gan y Cyngor yn anelu i annog mwy o ferched, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig ac aelodau o grwpiau eraill sydd yn cael eu tan-gynrychioli i ystyried sefyll i fod yn gynghorwyr. Derbyniwyd er gwybodaeth.

Ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor bu cyfarfod o gynghorwyr Ward Llanystumdwy i drafod ceisiadau (1) am gyfraniad o Elusen William Ellis.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

